**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Adroddiad (SLC (3)-03-09)**

**Dyddiad:** **3 Chwefror 2009**
**Amser :** **8.15am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r pwyllgor ar 3 Chwefror 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Mark Isherwood AC, Alun Davies AC a Janet Ryder AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC a Mike German AC. Roedd Dr Dai Lloyd, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ac Anna Daniel, cyn-Glerc y Pwyllgor yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar yr agenda: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried y materion allweddol.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC239 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC235 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 14 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009

**SLC236 - Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 9 Chwefror 2009

**SLC237 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 20 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 10 Chwefror 2009

**SLC238 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Datgymhwyso) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 19 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 21 Ionawr 2009. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

**SLC241 - Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) (Diwygio) 2009**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 9 Chwefror 2009.

**Materion eraill**

**Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)**

Yn unol â'i gylch gwaith o dan Reol Sefydlog 15.6(ii), ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth pa mor briodol yw darpariaethau'r Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Penderfynodd yr Aelodau, gan fod y Mesur arfaethedig ond yn cynnwys un ddarpariaeth wreiddiol a oedd yn rhoi pwerau i'r Gweinidog (adran 4(2) o'r Mesur arfaethedig), nad oedd yn hanfodol i Dr Dai Lloyd, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, fod yn bresennol i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i Bwyllgor Deddfwriaeth 1 a'i farn ar adran 4(2). Penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at Dr Lloyd i'w wahodd i esbonio'i safbwynt o ran y dewis o weithdrefn ar gyfer Gorchmynion a wneir o dan adran 4(2). Mewn egwyddor, cytunodd yr Aelodau y gallai adroddiad y cynghorwyr cyfreithiol fod yn sail i'r adroddiad i'r Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig.

**Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried y materion allweddol**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i gyd-drafod casgliadau ac argymhellion yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**3 Chwefror 2009**